# Buddion Pensiynau Bangor - Cwestiynau Cyffredin

Mae’r Cwestiynau Cyffredin hyn yn egluro sut mae Buddion Pensiynau Bangor a Chyfnewid Cyflog yn gweithio ac maent yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Sylwch y gall yr holl symiau yn y llyfryn hwn newid yn y dyfodol yn unol â deddfwriaeth. Rydym ni wedi nodi atebion isod i rai cwestiynau sydd gennych chi efallai o ran Buddion Pensiynau Bangor a sut bydd y trefniadau’n effeithio arnoch chi.

## Sut mae Buddion Pensiynau Bangor yn gweithio?

- Byddwch yn rhoi’r gorau i wneud eich cyfraniadau pensiwn gweithiwr (9.25% o gyfraniadau) i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor (“BUPAS”).
- Bydd y Brifysgol yn cynyddu ei chyfraniadau cyflogwyr (sy’n 17.5% ar hyn o bryd) ac yn talu swm ychwanegol sy’n gyfwerth â’ch cyfraniad pensiwn gweithiwr cyfredol (9.25% o gyfraniadau) i wneud cyfanswm o 26.75% o gyfraniad yn uniongyrchol i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant y Brifysgol.
- Caiff eich Cyflog Sylfaenol, ynghyd ag unrhyw Lwfansau Pensiynadwy eraill, eu lleihau yn ôl y swm yr oeddech yn ei dalu’n flaenorol i’r Cynllun Pensiwn.
- O ganlyniad, bydd eich cyflog clir yn cynyddu oherwydd rydych yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC). Y mae hyn oherwydd y telir Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o’r cyfraniadau pensiwn gweithiwr yr oeddech yn eu talu’n flaenorol, ond na thelir Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o’r cyfraniadau cyflogwr a gânt eu talu yn y dyfodol. Bydd y Brifysgol hefyd yn gwneud arbedion o ran Cyfraniadau Pensiwn Gwladol yn yr un modd.
- Mae Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (“AVCs”) hefyd yn rhan o Fuddion Pensiynau Bangor.
- Ni fydd lefel gyffredinol y cyfraniadau a wneir i’r cynllun yn newid.
- Nid oes effaith ar godiadau cyflog, goramser ac ati.
- Byddwn yn nodi eich Cyflog Sylfaenol a’ch Cyflog wedi’i Addasu at bob diben allanol, er enghraifft, wrth nodi eich cyflog at ddibenion ceisiadau morgais.
- Bydd eich pensiwn a’ch buddion eraill wedi’u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

## Pam fod y Brifysgol wedi cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor?

Bydd Buddion Pensiynau Bangor yn galluogi i’r Brifysgol, fel cyflogwr, wneud arbedion cyfraniadau yswiriant gwladol a fydd yn helpu i leihau costau. Ar yr un pryd mae Buddion Pensiynau Bangor yn cynyddu eich cyflog clir trwy leihau eich cyfraniadau yswiriant gwladol.

Mae’r cynnydd yn eich cyflog clir drwy gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn dibynnu ar eich Cyflog Sylfaenol. Mae’r tabl isod yn rhoi syniad o’r arbedion cyfraniadau yswiriant gwladol blynyddol sydd ar gael i weithwyr sy’n gwneud cyfraniadau ar hyn o bryd o 9.25 % i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor.

| Cyflog sylfaenol | Faint y bydd pob aelod yn ei arbed yn flynyddol mewn cyfraniadau yswiriant gwladol |
|---|---|
| £15,000 | £166.50 |
| £20,000 | £222.00 |
| £25,000 | £277.50 |
| £30,000 | £333.00 |
| £35,000 | £388.50 |
| £40,000 | £444.00 |

*Mae’r arbedion hyn wedi eu seilio ar gyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer 2023/24.

## Sut y bydd hyn yn effeithio ar fy nghyflog?

Caiff eich Cyflog Sylfaenol ei ostwng yn ôl faint o gyfraniadau pensiwn yr ydych yn eu talu ar hyn o

bryd i mewn i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor. Gelwir y cyflog diwygiedig hwn yn Gyflog wedi'i Addasu. Yn gyfnewid am y gostyngiad hwn yn eich cyflog, bydd y Brifysgol yn gwneud cyfraniad cyflogwr ychwanegol cyfatebol i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor. Gelwir hyn yn "Buddion Pensiynau Bangor".

A fydd fy Nghyflog Pensiynadwy yn aros yr un fath?

Eich Cyflog Pensiynadwy yw eich Cyflog Sylfaenol ynghyd ag unrhyw symiau cytundebol eraill a ganiateir gan y Brifysgol (ac eithrio goramser digontract). Dan Fuddion Pensiynau Bangor, bydd eich Cyflog Pensiynadwy yn parhau i fod wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, ac felly bydd yn parhau i gael ei gyfrifo fel ag y gwneir ar hyn o bryd, h.y. cyn Buddion Pensiynau Bangor ac unrhyw ostyngiadau Cyfnewid Cyflog eraill e.e. Talebau Gofal Plant neu Feithrinfa.

Ydw i'n gymwys i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor? <https://www.bangor.ac.uk/humanresources/bangorbenefits/faqupas.php.cy>

Os ydych chi'n Aelod o Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor ar hyn o bryd, rydych chi'n gymwys i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor. Ni fyddwch yn gallu cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os yw eich Cyflog wedi'i Addasu yn llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Byddwn yn monitro lefelau tâl ac yn rhoi gwybod i chi os byddwch yn debygol o gael eich effeithio. Fodd bynnag, os bydd eich amgylchiadau'n newid a'ch bod yn meddwl efallai eich bod yn dod o dan y categori hwn, dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 382058 neu benefits@bangor.ac.uk.

Beth sy'n digwydd os oes nifer o fuddion Cyfnewid Cyflog?

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o fuddion Cyfnewid Cyflog - taliadau meithrinfa trwy Gyfnewid Cyflog, Cynllun Beicio i'r Gwaith, a Chynllun Prynu Gwyliau Blynyddol. Gellir cael mwy o wybodaeth ar y tudalennau hyn.

Byddwch yn gallu cymryd rhan yn yr holl fuddion Cyfnewid Cyflog cyhyd ag nad yw hyn yn dod â'ch Cyflog wedi'i Addasu o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Ffin Diogelu Cyflog at ddibenion Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Os bu hyn yn broblem wrth gyflwyno Buddion Pensiynau Bangor, bydd unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog cyfredol yn cael blaenoriaeth.

Os daw hyn yn broblem ar ôl cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor, bydd unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog cyfredol yn cael blaenoriaeth.

Os cytunaf i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor, a fydd hynny yn effeithio ar unrhyw daliadau eraill?

Bydd yr holl godiadau cyflog yn y dyfodol yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, ac felly ni fydd cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio arnynt. Caiff pob un o'r buddion a gewch sy'n gysylltiedig â chyflog eu cyfrifo ar sail eich Cyflog Sylfaenol hefyd.

Beth am Farwolaeth mewn Swydd a Phensiwn Priod?

Ni fydd y buddion hyn yn newid, a byddant yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

A fyddaf yn dal i gael yr un pensiwn drwy Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor pan fyddaf yn ymddeol?

Byddwch. Mae eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn seiliedig ar eich cyflog gwirioneddol yng Nghynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor, sy'n aros yr un fath.

Os yw fy nghyflog yn cael ei leihau sut y bydd modd i mi wirio bod taliadau goramser ac ati wedi <https://www.bangor.ac.uk/humanresources/bangorbenefits/faqupas.php.cy>'' eu cyfrifo'n

gywir a'u talu i mi?
<https://www.bangor.ac.uk/humanresources/bangorbenefits/faqupas.php.en>

Bydd eich slipiau cyflog yn edrych ychydig yn wahanol. Bydd eich Cyflog Sylfaenol ac unrhyw lwfansau pensiynadwy eraill yn cael eu dangos ar eich slip cyflog ynghyd â gostyngiad Buddion Pensiynau Bangor, wedi'i labelu fel "Buddion Bangor - Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor".

Ni fydd y cyfraniadau pensiwn a dynnwyd o'ch cyflog o'r blaen, a ddangoswyd fel 'Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor', yn ymddangos ar y slip cyflog gan nad ydych yn talu unrhyw gyfraniadau mwyach.

'A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar faint o ostyngiad yn y dreth yr ydw i'n ei gael?
<https://www.bangor.ac.uk/humanresources/bangorbenefits/faqupas.php.cy>

Na, ni fydd effaith ar faint o ostyngiad yn y dreth y byddwch yn ei gael.

A oes unrhyw amgylchiadau lle na fydd yn bosibl neu'n fanteisiol cymryd rhan?

Ni fyddwch yn gallu cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os bydd eich cyflog yn agos i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Hefyd, os bydd eich enillion yn agos i'r Terfyn Diogelu Cyflog byddech mewn perygl o gael effaith negyddol ar eich hawl i fuddion gwladol. Ni fyddwn, felly, yn trefnu i chi ymuno'n awtomatig â Buddion Pensiynau Bangor os bydd eich enillion yn agos i'r Terfyn Diogelu Cyflog. Fodd bynnag, os dymunwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, bydd angen i chi lenwi ffurflen ymuno sydd ar gael gan yr adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 2058 neu drwy e-bostio benefits@bangor.ac.uk.

Os, yng nghwrs y flwyddyn, y bydd eich cyflog misol wedi'i addasu yn gostwng yn is na'r Terfyn Diogelu Cyflog misol yn ystod y flwyddyn byddwch yn cael eich eithrio'n awtomatig o gynllun Buddion Pensiynau Bangor am weddill y flwyddyn. Byddwch yn gallu ailasesu'ch cofrestriad gyda Buddion Pensiynau Bangor ar 1 Awst bob blwyddyn, neu yn achos digwyddiad arwyddocaol yn eich bywyd.

Os nad oes gennych oriau sefydlog ni wneir trefniadau i chi ymuno'n awtomatig â chynllun Buddion Pensiynau Bangor. Os dymunwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, yna dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 2058 neu e-bostio benefits@bangor.ac.uk.

Rydw i dros oedran ymddeol y wladwriaeth, ac felly dydw i ddim yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Oes modd i mi gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?

Os ydych chi dros oedran ymddeol y wladwriaeth ni fyddwch yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eich cyflog ac o ganlyniad ni fyddwch yn gweld unrhyw newid yn eich cyflog clir drwy gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ofynnol i'r Brifysgol dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar y cyflog a gewch a thrwy hynny bydd y Brifysgol yn gwneud arbedion, a fydd yn helpu i leihau ei chostau a bydd yr arbedion a wneir yn cael eu defnyddio gan eich adran chi. Yn seiliedig ar hyn, cewch eich cofrestru'n awtomatig yn rhan o gynllun Buddion Pensiynau Bangor.

Rydw i'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd is ar gyfer gwragedd priod. A fyddaf i'n cael budd o arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol?

Os ydych chi'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd is ar gyfer gwragedd priod a gweddwon (mae hyn yn berthnasol i'r gweithwyr hynny a wnaeth y dewis hwn cyn 12 Mai 1977), rydych chi'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is ar enillion.

Byddwch yn dal i wneud arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol wrth gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ond bydd eich arbedion wedi eu seilio ar y cyfraddau hyn yn hytrach na'r symiau y cyfeirir atynt mewn mannau eraill yn y ddogfen hon

## A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar Dâl Mamolaeth Statudol (SMP)?

Bydd gan weithwyr sy'n dechrau ar absenoldeb mamolaeth yr hawl i dâl Mamolaeth yn unol â Pholisi Mamolaeth y Brifysgol, ar hyn o bryd mae hyn fel a ganlyn:

- Wyth wythnos gyntaf yr absenoldeb ar gyflog llawn (mae hyn yn cynnwys unrhyw hawl i Dâl Mamolaeth Statudol sy'n daladwy yn ystod y cyfnod o wyth wythnos)
- Deunaw wythnos nesaf yr absenoldeb ar hanner cyflog, ynghyd â'r Tâl Mamolaeth Statudol y mae gennych yr hawl iddo, wedi'i dalu i'r graddau na fydd yn fwy na'r cyflog arferol
- Y tair wythnos ar ddeg nesaf wedi'u talu ar gyfradd unffurf Tâl Mamolaeth Statudol, yn unol â hawl i hynny
- Hyd at dair wythnos ar ddeg arall yn ddi-dâl

Bydd eich Tâl Mamolaeth Statudol wedi'i seilio ar eich Cyflog wedi'i Addasu, ac felly bydd y Brifysgol yn 'ychwanegu' at eich tâl i'r lefel y byddech wedi'i dderbyn pe na byddech wedi cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor, i sicrhau nad ydych mewn gwaeth sefyllfa. Bydd eich Tâl Mamolaeth Uwch wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol (cyn unrhyw ostyngiadau ar gyfer Buddion Pensiynau Bangor, talebau gofal plant neu feithrinfa). Byddwch yn parhau i gyfnewid cyflog wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, cyhyd â bod eich Cyflog wedi'i Addasu ddim yn gostwng yn is na lefel y Tâl Mamolaeth Statudol. Yn ystod cyfnodau lle byddwch yn derbyn Tâl Mamolaeth Statudol yn unig, ni fyddwch yn cyfnewid unrhyw gyflog; fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn parhau i wneud cyfraniadau pensiwn wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol cyn yr Absenoldeb Mamolaeth.

## A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy Nhâl Mabwysiadu?

Mae'r rheolau cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Mabwysiadu a Thâl Mabwysiadu yn gymhleth. Os ydych chi'n ystyried, neu'n mynd drwy leoliad mabwysiadu, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865 neu e-bostiwch benefits@bangor.ac.uk am fwy o gyngor.
Fodd bynnag, bwriad y Brifysgol yw na fyddwch dan anfantais o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

## Beth os ydw i'n gofyn am eirda er mwyn cael morgais neu fenthyciad?

Byddwn yn dweud wrth fenthycwyr am eich Cyflog Sylfaenol, sef eich cyflog cyn unrhyw ostyngiad dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor neu unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog eraill, ac am eich Cyflog wedi'i Addasu, sef eich cyflog ar ôl unrhyw ostyngiadau ar gyfer cynllun Buddion Pensiynau Bangor neu drefniadau Cyfnewid Cyflog eraill. Golyga hyn na ddylai cynllun Buddion Pensiynau Bangor gael effaith niweidiol ar eich gallu i gymhwyso am forgais neu fenthyciad arall.

## Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn os byddaf yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor?

Os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor gyda mwy na dwy flynedd o wasanaeth, ni fydd unrhyw newid. Bydd gennych ddewis rhwng pensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo eich buddion wedi'u gohirio.

Ar hyn o bryd, os byddwch yn gadael ar ôl mwy na thri mis, ond llai na dwy flynedd, mae gennych yr un dewisiadau ag y nodir uchod (pensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo) ynghyd â'r dewis o ad-daliad o'ch cyfraniadau eich hun (llai didyniadau statudol). O dan Fuddion Pensiynau Bangor, ni fyddwch yn gwneud cyfraniadau gweithwyr mwyach, ac felly, ni fyddwch yn gallu derbyn ad-daliad o unrhyw gyfraniadau gweithwyr ychwanegol a wnaed dan Fuddion Pensiynau Bangor.

Os byddwch yn gadael gyda llai na thri mis o wasanaeth, bydd gennych hawl i ad-daliad tybiannol o gyfraniadau sy'n gyfwerth â lefel y Cyfnewid Cyflog. Bydd hyn yn dileu unrhyw hawl i bensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo.

## A fydd cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy Nghredydau Treth?

Na fydd. Ni fydd cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor ar ei ben ei hun yn effeithio ar unrhyw Gredydau Treth Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi.

Beth am fuddion pensiwn y wladwriaeth?

Na fydd, ni fydd unrhyw effaith ar eich buddion o ran pensiwn y wladwriaeth.

A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy nhaliadau i'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)?

Caiff taliadau cynnal plant i'r Asiantaeth Cynnal Plant eu cyfrifo gan gyfeirio at eich incwm net h.y. eich cyflog ar ôl didynnu cyfraniadau pensiwn, treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol. O dan Fuddion Pensiynau Bangor, mae eich incwm net yn cynyddu oherwydd rydych yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol ac efallai y bydd eich taliadau cynnal plant yn cynyddu o ganlyniad felly.

Os penderfynwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, dylech roi gwybod i'r Asiantaeth Cynnal Plant am y newid yn eich incwm net ar unwaith. Cewch fanylion cyswllt yr Asiantaeth Cynnal Plant a rhagor o fanylion o wefan yr Asiantaeth Cynnal Plant ar www.csa.gov.uk.

A effeithir ar fy ad-daliadau benthyciad myfyriwr?

Os ydych yn ad-dalu benthyciad myfyriwr a drefnwyd gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, efallai y bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu gostwng fymryn o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor. Mae hyn oherwydd y caiff eich ad-daliadau eu cyfrifo ar eich enillion gros a fydd yn llai dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor drwy'r trefniant Cyfnewid Cyflog.

A effeithir ar fy Nghyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol?

Os dymunwch, gallwch dalu eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol trwy Fuddion Pensiynau Bangor i elwa ar ostyngiad pellach ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Gallwch ddewis i'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Darbodus a'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar gyfer Blynyddoedd Cronnus gael eu talu trwy'r cynllun aberthu cyflog. Wrth wneud y dewis hwn, byddwn yn gwirio i sicrhau na fydd talu cyfraniadau o'r fath trwy Fuddion Bangor yn peri i'ch Cyflog wedi'i Addasu syrthio yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Bydd angen i chi ddewis talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol trwy Fuddion Bangor - gallwch wneud hynny trwy e-bostiopensiynnau@bangor.ac.uk.

Sut caiff gweithwyr newydd eu trin?

Os ydynt wedi cwblhau ffurflen gais i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor, byddant yn ymuno'n awtomatig hefyd gyda Buddion Pensiynau Bangor oni bai eu bod yn llenwi ffurflen i eithrio eu hunain o gynllun Buddion Pensiynau Bangor, neu ein bod ni wedi gweld y byddai'n anfanteisiol iddynt gymryd rhan. Eglurir hyn yn fanylach yn y pecyn rhagarweiniol.

Oes rhaid i mi wneud unrhyw beth er mwyn cymryd rhan, e.e. llofnodi unrhyw ffurflenni?

Nac oes. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth oherwydd fe gewch eich cynnwys yn awtomatig yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor, ar wahân i unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y byddwch yn eu talu. Os hoffech i'ch cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol gael eu cynnwys, bydd angen i chi e-bostio pensiynnau@bangor.ac.uk i weithredu hyn.

Beth os nad ydw i eisiau cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?

Gallwch ofyn am ffurflen eithrio o gynllun Buddion Pensiynau Bangor gan yr adran Adnoddau Dynol ar 01248 383865, trwy e-bostio benefits@bangor.ac.uk, neu trwy'r tudalennau Mewnrwyd yr adran adnoddau dynol.

Mae dewis eithrio o gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn golygu y byddwch yn parhau i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor ond ni fyddwch yn gallu manteisio ar yr arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n arwain at y cynnydd yn eich cyflog clir a fyddai'n bosibl drwy gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

Beth os ydw i'n newid fy meddwl, neu fod fy amgylchiadau'n newid?

Os penderfynwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, ni fyddwch yn gallu tynnu'n ôl tan 1 Awst y flwyddyn ganlynol, oni bai eich bod yn profi unrhyw un o'r "Digwyddiadau Bywyd" canlynol:

- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Genedigaeth neu ar gamau allweddol o fabwysiadu plentyn
- Rhoi gwybod am feichiogrwydd neu ddechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth/dychwelyd o absenoldeb o'r fath
- Ysgariad/gwahaniad cyfreithiol/diddymu partneriaeth sifil
- Marwolaeth partner neu ddibynnydd
- Cyfnod o absenoldeb salwch tymor hir
- Dychwelyd o gyfnod o absenoldeb salwch tymor hir
- Diswyddo partner neu golli gwaith yn anwirfoddol
- Dechrau absenoldeb di-dâl o fwy na 3 mis, neu ddychwelyd o absenoldeb o'r fath (mabwysiadu, tadolaeth, sabothol, saib mewn gyrfa, etc.)
- Newid sylweddol mewn oriau (20% neu fwy)
- Gostyngiad mewn Cyflog Sylfaenol o 20% neu fwy
- Dechrau secondiad dramor, neu ddychwelyd o secondiad o'r fath
- Ymuno â'r Cynllun Pensiwn / ei adael
- Gadael Cynllun Pensiwn y Prifysgolion cyn pen tri mis ar ôl cael eich cofrestru'n awtomatig
- Cyrraedd yr Oedran Ymddeol Gwladol
- Symud tŷ
- Rhoi plentyn gyda gofalwr plant cofrestredig

Yn yr achosion hyn, gallwch lenwi ffurflen Digwyddiadau Bywyd Allweddol, ac eithrio eich hun o gynllun Buddion Pensiynau Bangor. Os penderfynwch wneud hyn, cewch gyfle i adolygu'ch penderfyniad a dewis cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor o 1 Awst 2010, ac ar 1 Awst bob blwyddyn yn dilyn hynny. Mi fyddwch chi hefyd yn gallu dewis cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os byddwch yn profi unrhyw un o'r digwyddiadau bywyd a nodir uchod.

I bwy fedraf i ofyn os oes gennyf ragor o gwestiynau?

Os oes gennych ragor o gwestiynau, ewch i dudalennau gwe'r adran Adnoddau Dynol ar y Fewnrwyd, cysylltwch â'r adran Adnoddau Dynol yn uniongyrchol ar 01248 383261, neu â'r Rheolwr Pensiynau ar 01248 383261.